The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

NODER: MAE'R FFURFLEN APÊL YMA YN BETHNASOL I GYMRU YN UNIG

| For official use only |
| --- |
| Date received: |

Ceir rhagor o wybodaeth amdanom ar ein gwefar www.planningportal.gov.uk

# APÊL GWRYCHOEDD UCHEL

Os oes angen copi print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall o'r ddogfen hon arnoch, cysylltwch â'n Llinell Gymorth ar 0117 372 8939

**Defnyddiwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob apêl.**

**RHYBUDD:** Rhaid sicrhau y caiff y ffurflen apêl wedi'i chwblhau, ynghyd â'r dogfennau ategol angenrheidiol, eu derbyn cyn diwedd y cyfnod 28 diwrnod o ddyddiad perthnasol yr Hysbysiad Adfer/dyddiad Penderfyniad yr Awdurdod Lleol. Ni dderbynnir apeliadau anghyflawn/hwyr.

**YSGRIFENNWCH YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU**

## A. MANYLION YR APELYDD

Enw

Enw'r Sefydliad (os yw'n gymwys)

## B. MANYLION YR ASIANT (os oes) AR GYFER YR APÊL

Enw

Enw'r Sefydliad (os yw'n gymwys)

Eich Cyfeirnod

## C. MANYLION Y CYNGOR

Enw'r Cyngor

Rhif Cyfeirnod y Cyngor

Dyddiad y Gŵyn

Dyddiad hysbysiad/penderfyniad y Cyngor

## CH. CYFEIRIAD NEU ENW SAFLE’R APÊL (os yw'n briodol)

Cyfeiriad neu enw'r Safle neu'r ddau os yn bosibl
e.e.
Dyffryn Mawr, i'r gorllewin o Ffordd
Pant Glas, Tyddewi)

Cod post (os yw'n hysbys), neu'r eiddo agosaf at safle’r apêl

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## D. DISGRIFIAD O'R GWRYCH

Rhowch ddisgrifiad clir er mwyn gallu adnabod y gwrych heb gymorth mapio (e.e. tirnodau, ffyrdd ag enwau neu wedi'u rhifo, hawliau tramwy cyhoeddus, afonydd ac ati)

## DD. SAIL YR APÊL

**Gwneir apeliadau o dan adran 71(1) o'r Ddeddf. Nodwch sail yr apêl isod ac yna nodwch y rhesymau dros yr apêl yn adran E.**

*Gwneir apeliadau yn erbyn penderfyniad y Cyngor i gyhoeddi hysbysiad adfer oherwydd:*
✓

- 3(1)(a) - nid yw uchder y gwrych uchel yn cael effaith andwyol ar fwynhad yr achwynydd o'i eiddo ☐
- 3(1)(b) - ni ddylid cymryd camau gweithredu mewn perthynas â'r gwrych uchel er mwyn adfer yr effaith andwyol ar fwynhad yr achwynydd o'i eiddo nac atal yr effaith rhag digwydd eto ☐
- 3(1)(c) - mae'r hysbysiad yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i adfer effaith andwyol y gwrych uchel neu i atal yr effaith rhag digwydd eto ☐
- 3(1)(d) - mae'r cyfnod a nodir yn yr hysbysiad ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu yn fyrrach na'r hyn y dylid ei ganiatáu yn rhesymol ☐
- 3(2)(a) - nid yw'r hysbysiad yn adfer effaith andwyol y gwrych uchel ar fwynhad yr achwynydd o'i eiddo nac yn atal yr effaith rhag digwydd eto ☐

*Gwneir apeliadau yn erbyn penderfyniad y cyngor i dynnu hysbysiad adfer yn ôl neu i hepgor neu lacio'i ofynion*

NODER: Ni ellir pledio'r seiliau isod:

- onid yw 28 diwrnod, ers dyddiad tynnu'r hysbysiad yn ôl, wedi dod i ben heb i'r cyngor gyhoeddi hysbysiad arall ar gyfer yr un gwrych uchel; ac
- oni bai na chytunodd pob un o'r achwynwyr a/neu berchenddeiliaid y tir lle y lleolir y gwrych i dynnu'r hysbysiad yn ôl neu hepgor neu lacio'r gofynion.

Yna gellir gwneud apêl ar y sail: ✓

- 4(3)(a) - na fu newid perthnasol i'r amgylchiadau a fyddai'n cyfiawnhau tynnu'r hysbysiad yn ôl neu hepgor neu lacio'i ofynion ☐
- 4(3)(b) - nid yw'r hysbysiad, fel y'i hepgorwyd neu y'i llaciwyd, yn adfer effaith andwyol y gwrych uchel ar fwynhad yr achwynydd o'i eiddo nac yn atal yr effaith rhag digwydd eto ☐
- 4(3)(c) - mae'r hysbysiad, fel y'i hepgorwyd neu y'i llaciwyd, yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i adfer effaith andwyol y gwrych uchel ar fwynhad yr achwynydd o'i eiddo neu i atal yr effaith rhag digwydd eto ☐

*Gwneir apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r cyngor a wnaed fel arall yn erbyn yr achwynydd oherwydd:*

✓

- 5 - bod uchder y gwrych uchel a nodir yn y gŵyn yn cael effaith andwyol ar fwynhad rhesymol yr achwynydd o'i eiddo a dylid cymryd camau gweithredol i adfer effaith y gwrych uchel ar fwynhad yr achwynydd o'i eiddo neu i atal yr effaith rhag digwydd eto ☐

## E. RHESYMAU DROS YR APÊL

**Nid yw'n ddigon dweud nad ydych yn derbyn Penderfyniad / Hysbysiad Adfer yr Awdurdod Lleol, rhaid i chi roi rhesymau LLAWN i gefnogi eich sail dros apelio.**

*Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen*

## F. DEWIS GWEITHDREFN

Noder y byddwn hefyd yn ystyried dewis gweithdrefn y Cyngor wrth benderfynu sut y dylai'r apêl fynd rhagddi. Am ragor o wybodaeth gweler y llyfryn ‘Apelio yn erbyn Hysbysiadau Gwrychoedd Uchel’ sy'n cyd-fynd â'r ffurflen hon.

*(Ticiwch un blwch yn unig)* ✓

**1. CYNRYCHIOLIADAU YSGRIFENEDIG**

Fel arfer cynrychioliadau ysgrifenedig yw'r ffurf gyflymaf a rhataf o ymdrin â'r apêl. ☐

**2. GWRANDAWIAD** ☐

## FF. APÊL PERCHNOGAETH SAFLE/BUDDIANT MEWN TIR

Gellir gwneud apeliadau gan yr achwynydd gwreiddiol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu berchennog neu ddeiliad tir gerllaw'r safle y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

*Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod beth yw eich buddiant, felly ticiwch y blwch priodol.*

| | ✓ | | ✓ |
|---|---|---|---|
| 1. Tirfeddiannwr | 1 ☐ | 4. Tirfeddiannwr ar dir cyfagos | 4 ☐ |
| 2. Deiliad | 2 ☐ | 5. Deiliad tir cyfagos | 5 ☐ |
| 3. Tenant | 3 ☐ | 6. Tenant ar dir cyfagos | 6 ☐ |

## G. POBL Â DIDDORDEB (i'w gwblhau gan berchnogion gwrychoedd yn unig)

**Mae angen i ni wybod am unrhyw bobl eraill sydd, hyd eithaf eich gwybodaeth, â buddiant yn y tir (gall buddiant yn y tir olygu perchnogaeth, tenantiaeth neu unrhyw hawl arall ar y tir drwy rinwedd trwydded neu gytundeb).**

*(ticiwch y blwch priodol)* ✓

(a) Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes gan unrhyw bobl eraill fuddiant yn y tir a ☐

**NEU**

(b) Mae gan y bobl ganlynol fuddiant yn y tir b ☐

Enwau'r Pobl â Diddordeb

☐

☐

☐

☐

Rhowch y cyfeiriad(au) ar

y dudalen manylion personol

## NG. GWYBODAETH HANFODOL A DOGFENNAU ATEGOL

**Oni bai eich bod wedi cynnwys y wybodaeth a'r dogfennau a restrir isod, ni fydd eich apêl yn ddilys ac ni fyddwn yn gallu ymdrin â hi. Ticiwch y blychau i gadarnhau eich bod wedi cynnwys y wybodaeth berthnasol**.

1. Copi o'r **Hysbysiad Adfer/Penderfyniad** y mae'r Apêl yn cyfeirio ato — 1 ☐
2. Copïau o ohebiaeth berthnasol rhwng yr Apelydd a'r Awdurdod Lleol, Partïon yr Apêl a Phobl â Diddordeb, mewn perthynas â'r gŵyn y mae'r Apêl yn cyfeirio ati. — 2 ☐

## H. DEWIS IAITH

Nodwch ym mha iaith yr hoffech i'r apêl gael ei thrin; (Ticiwch un blwch yn unig) ✓

1. Hoffwn i'r apêl gael ei thrin yn Gymraeg — *c* ☐
2. Hoffwn i'r apêl gael ei thrin yn Saesneg — *s* ☐

## Manylion Personol

Ni fydd Manylion Personol ar y dudalen hon ar gael i'r cyhoedd

### 1. MANYLION PERSONOL YR APELYDD

Cyfeiriad

Cod post

Ffôn yn ystod y Dydd

Ffacs

E-bost

Byddai'n well gennyf pe cysylltir â mi drwy E-bost ☐ Post ☐

### 2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (os oes)

Cyfeiriad

Cod post

Ffôn yn ystod y Dydd

Ffacs

E-bost

Byddai'n well gennyf pe cysylltir â mi drwy E-bost Post

### 3. POBL Â DIDDORDEB

| Enw'r Perchennog | Cyfeiriad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

### 4. LLOFNODWCH ISOD

Ticiwch ✓

Rwyf wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen ☐

Rwyf wedi anfon copi o'r ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau i'r Cyngor ☐

Deallaf y gallech ddefnyddio'r wybodaeth a roddais at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ac y bydd manylion gan gynnwys fy enw, disgrifiad o'r safle a'r rhesymau dros fy apêl yn ymddangos ar y Porth Cynllunio. Drwy gyflwyno'r ffurflen hon cytunaf ar y defnydd o'r wybodaeth a roddaf yn y ffordd hon. ☐

Llofnod

| Enw (mewn priflythrennau) | | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

Mae'r broses o gasglu'r data personol a roddir gennych yn y ffurflen hon a'r broses ddilynol o'i brosesu, yn unol â thelerau ein cofrestriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar ein gwefan o dan "Datganiad Preifatrwydd".

## ANFONWCH

| **1 COPI atom yn:** | **1 COPI i'r CYNGOR** | **1 COPI i chi ei gadw** |
| --- | --- | --- |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD<br>CF10 3NQ | Anfonwch gopi o'r ffurflen apêl i'r cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad o benderfyniad ohono (neu'r cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbynnir oddi wrth yr ACLl). Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt unwaith eto, anfonwch unrhyw ddogfennau ategol nas anfonwyd atynt yn flaenorol fel rhan o'r cais. Os nad anfonwch gopi o'r ffurflen hon a dogfennau atynt, mae'n bosibl na fyddwn yn derbyn eich apêl. | |

## PAN FYDDWN EICH APÊL YN EIN CYRRAEDD

Pan fydd eich ffurflen apêl yn ein cyrraedd, byddwn yn:

**1** Dweud wrthych a yw'n ddilys a phwy sy'n ymdrin â hi.

**2** Dweud wrthych chi a'r Cyngor pa weithdrefn y bydd eich apêl yn ei dilyn.

**3** Dweud wrthych beth fydd yr amserlen ar gyfer anfon gwybodaeth bellach neu gynrychioliadau.

**4** Dweud wrthych beth fydd y trefniadau ar gyfer ymweliad â'r safle neu wrandawiad.

Ar ddiwedd y broses apelio, bydd yr Arolygydd yn rhoi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, yn ysgrifenedig.

**MAE'N RHAID I CHI GADW AT YR AMSERLEN**
Os anfonir gwybodaeth neu gynrychioliadau yn hwyr efallai y byddwn yn eu hanwybyddu.
Ni chânt eu gweld gan yr Arolygydd ond cânt eu dychwelyd atoch.